CARDIFF
CAERDYDD

# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL
# Adroddiad Blynyddol i Aelodau Etholedig 2018
# Annual Report for Elected Members 2018

**Cynghorydd/Councillor: Emma Sandrey** **Plaid/ Party: Democratiaid Rhyddfrydol**

**Ward: Pentwyn** **Etholwyd yn Gyntaf/ First Elected: 04 May 2017**

Mae'r adroddiad yn nodi fy mhrif weithgareddau dros flwyddyn ddinesig 2017/18 sy'n dod i ben 24 Mai 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim at unrhyw ddiben arall.

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Rwy'n aelod o'r pwyllgorau Safonau a Moeseg, a Gwasanaethau Democrataidd.

Rwyf hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol o Fws Caerdydd a llefarydd grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth.

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth**

Dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi ymdrin â mwy na 200 darn o waith achos, yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys; casgliadau gwastraff a thipio anghyfreithlon, anghenion tai a chynnal a chadw, cyfleusterau a chynnal a chadw parciau, cynnal a chadw awyr agored o ddodrefn a choed stryd, parcio niwsans, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyfleusterau cymunedol, gofal cymdeithasol a cheudyllau.

Rwy'n arbennig o falch o'r gwaith achos rwyf wedi'i wneud sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau preswylwyr unigol, yn enwedig y rheiny sydd wedi cael problemau cyrchu tai a gofal cymdeithasol, delio â chymdogion anystyriol ac ymdrin â phroblemau rheoli plâu.

Rwyf hefyd wedi cynnal 15 Cymhorthfa yn hyb y Powerhouse yn Llanedern.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi ymwneud â sawl deiseb i'r Cyngor, gan gynnwys; problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mhentwyn, adeilad gwag Pentwyn Arms, gwasanaethau bws i blant sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Llanisien, problemau parcio y tu allan i Gampws Met Caerdydd ar Circle Way West, cael gwared ar y caffi yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn a dirywiad y llyn ym Mharc Coed Y Nant.

Rwyf wedi bod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Springwood, yr ysgol ro'n i arfer ei mynychu fel plentyn, am bron i 2 lynedd. Fi yw'r llywodraethwr cyswllt dros iechyd a diogelwch, a'r grant amddifadedd disgyblion, a chadeirydd yr is-bwyllgor adeiladau. Ro'n i'n falch o allu helpu i sicrhau gwaith allweddol eleni oedd angen cael ei wneud ar do'r ysgol, uwchben y ceginau – dylid bod wedi gwneud y gwaith cynnal a chadw hwn cryn amser yn ôl, ac roedd ar fin bygwth sgôr hylendid yr ysgol.

**Gweithgareddau / Materion Eraill**

Rwyf wedi cymryd rhan mewn casgliadau sbwriel rheolaidd a drefnwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus a Chasglwyr Pentwyn, rwyf wedi mynychu cyfarfodydd PACT yn rheolaidd yn Llanedern a Phentwyn, ac wedi cymryd rhan yng Ngrŵp Cymunedol Llanedern a Phentwyn. Rwyf wedi mynychu digwyddiadau cymunedol a gynhaliwyd gan Heddlu De Cymru, hyb y Powerhouse yn Llanedern ac eglwysi lleol, ac wedi cwrdd â Met Caerdydd ar sawl achlysur mewn perthynas â materion ward.

**Cynghorydd: Emma Sandrey**